**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Rebecca Evans AC
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

29 Mawrth 2017

Annwyl Rebecca

**Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)**

Diolch i chi am eich **llythyr dyddiedig 10 Mawrth 2017** yn amlinellu eich ymateb i'n hargymhelliad yn ein **Hadroddiad ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)**.

Rydych yn gwrthod ein hargymhelliad y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i sicrhau bod awdurdodau gorfodi yn gwbl ymwybodol o'u rhwymedigaethau hawliau dynol oherwydd:

> "Local authorities are already bound by and are very familiar with their obligations under section 6 of the Human Rights Act 1998. They are therefore well versed in the duties placed upon them. In view of this I believe it would be unnecessary and inappropriate to add specific provision on the face of the Bill, and could unintentionally lead to confusion if such a provision was included in this Bill and not in other legislation."

Fodd bynnag, mae materion hawliau dynol sy'n wynebu cyrff cyhoeddus wedi cael eu hamlygu ar sawl achlysur yn ddiweddar.

Yn gyntaf, nododd adroddiad gan y Comisiwn Hawliau Dynol ***"A yw Cymru'n Decach: cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2015"*** saith her allweddol sy'n wynebu Cymru fel "anghydraddoldebau a chamau hawliau dynol mawr, disymud fydd yn galw am ymdrech sylweddol gan sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac unigolion i'w lleihau."

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Yn ail, nododd **adroddiad yn seiliedig ar y drafodaeth ford gron ar hawliau dynol** a gynhaliwyd mewn partneriaeth gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ym mis Gorffennaf 2015:

> "There are opportunities for the human rights agenda in Wales to be developed further at both Welsh Government and public authority level, as well as in grass-roots projects developed by third sector and community organisations.
>
> Perpetuating a purely rosy narrative on human rights in Wales is unhelpful and is often a block to positive and evidence-based change. Therefore, authenticity is important in discussions on the state of human rights in Wales. Even if good policies are in place, implementation is central to ensuring people's human rights and promoted and protected."

Yn olaf, yn ei ddyfarniad yn y **Sefydliad Cristnogol ac eraill (apelwyr) v Yr Arglwydd Adfocad (Ymatebydd) (Yr Alban) [2016] UKSC 51**, rhoddodd y Goruchaf Lys rybudd clir am beryglon deddfwriaeth yn dibynnu'n unig ar awdurdod cyhoeddus yn bod yn ymwybodol o'i rwymedigaethau hawliau dynol. Ym mharagraff 101 o'i ddyfarniad, dywedodd y Goruchaf Lys fod angen arweiniad er mwyn lleihau'r risg o ymyrraeth anghymesur sy'n torri hawliau dynol.

Er bod y materion a godwyd yn y ddau adroddiad uchod a dyfarniad y Goruchaf Lys yn cynnwys cam-drin hawliau dynol mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli, maent hefyd yn gwbl berthnasol i gam-drin hawliau dynol mewn meysydd datganoledig. Rydym yn credu bod yr egwyddorion a'r dulliau diogelu a nodwyd yn y ddau adroddiad uchod a dyfarniad y Goruchaf Lys yn gallu, ac y dylent, gael eu cymhwyso yn gyffredinol i'r holl ymyriadau hawliau dynol, ac yn arbennig i arfer pwerau mynediad.

Nid ydym wedi ein darbwyllo gan eich dadl y byddai diwygio'r Bil fel rydym yn ei awgrymu yn arwain at ddryswch gan nad yw'n cael ei gynnwys mewn deddfwriaeth arall. Mae hwn yn gyfle i Lywodraeth Cymru gymryd yr awenau wrth roi mwy fyth o bwyslais ar rwymedigaethau hawliau dynol.

Yng ngoleuni'r uchod, byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ailystyried ein hargymhelliad ac yn cyflwyno gwelliant priodol i'r Bil.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych maes o law.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

**Huw Irranca-Davies**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.